

**Cyngor
Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

COVID 19 YMATEB I ARGYFWNG

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Data
Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodaethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Maria Litchfield – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Dinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad creu:	23 Mawrth 2020
Adran sy'n gyfrifol:	Tîm Rheoli
Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Ellis Cooper
Cyfeiriad:	Canolfan Dinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y Cyngor yn cydlynu ac yn darparu'r ymateb i Argyfwng Coronafeirws, Covid-19, ym Merthyr Tudful.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd wedi cael ei gynllunio i ddarparu manylion i chi ar sut y bydd y Cyngor yn casglu, defnyddio a chadw data personol yn ystod yr argyfwng hwn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol yr ydym yn ei gasglu. Mae'n ofynnol ein bod, o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Efallai y byddwn yn diweddarar'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau y bydd copi wedi ei ddiweddarar ar gael i chi cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol bosib.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn ogystal â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a'r hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl ynghylch y modd yr ydym yn prosesu data. Gellir ei gyrchu ar ein gwefan.

PWY YDYM NI:

Y Cyngor yw'r rheolwr ac sydd yn gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor hwn yn cynnwys nifer fawr o adrannau gwahanol a gellir cael gwybodaeth amdanynt ar ein gwefan. Er mwyn darparu ymateb effeithiol i Argyfwng Covid-19, mae'r Cyngor wedi gorfod casglu ei adnoddau ac mae pob adran yn gyfrifol am ddarparu ein hymateb.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i bob preswlydd yn y fwrdeistref, staff y Cyngor, gwirfoddolwyr, cleientiaid, cwsmeriaid, Perchnogion Busnes a Masnachwyr Unigol.

Bydd y Cynghorwyr, sef ein cynrychiolwyr gwleidyddol yn ein cynorthwyo i gydlynu ein hymateb i bandemig Covid-19. Gellir gweld rhestr gyflawn o'n Cynghorwyr ar ein gwefan; www.merthyr.gov.uk.

Mae'r Cyngor wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu ag ef drwy ddefnyddio'r manylion isod:

Cyfeiriad: Canolfan Dinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
<mailto:data.protection@merthyr.gov.uk>

Ffôn: 01685 725000

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL:

Byddwn ond yn defnyddio eich data personol pan fydd y Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018.

Rydym wedi creu tudalen coronafeirws ddynodedig ar y we sy'n darparu gwybodaeth fanwl ynghylch y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i'r cyhoedd yn ystod yr argyfwng hwn. Mae'r gwefannau hyn yn cael eu diweddarau'n gyson a gellir eu canfod drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

<https://www.merthyr.gov.uk/coronavirus>

Isod, gwelir rhai o'r gweithgareddau sy'n cymryd lle ym Merthyr Tudful yn sgil Ymateb y Cyngor i Argyfwng COVID-19:

Profi:

Mae profi unigolion am Coronafeirws yn elfen angenrheidiol er mwyn osgoi lledaeniad y firws ac yn sicrhau y gallwn ddarparu'n gwasanaethau'n effeithiol gan sicrhau nad yw'n staff wedi cael prawf positif. Mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â'n cydweithwyr yn Fforwm Gwydnwch Lleol De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau fod gweithwyr allweddol y Cyngor a'n staff sydd ar y rheng flaen yn cael eu profi am Coronafeirws.

Yn unol â Chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'n ofynnol i Weithwyr Allweddol sydd yn dangos symptomau o'r feirws, hunanynysu gartref am 14 diwrnod. Byddwn yn dechrau profi aelodau eraill o'r aelwyd er mwyn galluogi'n Gweithwyr Allweddol i ddychwelyd i'w dyletswyddau cyn gynted ag y bo fodd. Os ydych yn byw ar yr un aelwyd ag un o weithwyr allweddol y Cyngor a'ch bod yn datblygu symptomau, bydd ein Gweithiwr Allweddol yn ein hysbysu o hynny a byddwn yn cysylltu â chi er mwyn trefnu prawf. Peidiwch â chysylltu â'r Cyngor i ofyn am brawf os nad ydych yn gyflogai i ni.

Os bydd fodd i ni brofi mwy o bobl, efallai y bydd fodd i ni brofi ein Gweithwyr Hanfodol, sef gweithwyr swyddfa sydd yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu ein gwasanaethau. Gallai hyn hefyd gael ei ymestyn i aelodau o'u haelwydydd os bydd hynny'n bosib.

Cinio Ysgol Am Ddim:

Er mwyn sicrhau bod eich plant, a oedd yn derbyn cinio am ddim cyn i'r ysgolion gau yn parhau i wneud hynny, mae'r Cyngor wedi creu tîm sydd yn cydlynu'r ddarpariaeth ac yn cofnodi'r prydiau

hyn drwy ail-leoli staff o feysydd gwasanaeth eraill i gynorthwyo â'r broses. Mae cronfeydd data Adran Addysg y Cyngor wedi cael eu defnyddio er mwyn dynodi a chreu'r rhestrau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Os oedd eich plentyn yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yna bydd y Cyngor yn darparu cymorth ariannol a fydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu dalebau y gallwch eu defnyddio mewn archfarchnadoedd i'ch cynorthwyo'n ariannol yn ystod y cyfnod y bydd yr ysgol ar gau.

Cymorth Cymunedol:

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio â nifer o grwpiau gwirfoddol sydd wedi bod yn cynnig eu gwasanaeth i chi gan sicrhau eich bod yn gallu cyrchu cymaint o gymorth â phosib er mwyn dygymod â'r cyfnod anodd hwn. Er mwyn hwyluso hyn, mae'r Cyngor wedi creu cronfa ddata o unigolion sydd wedi eu dynodi gan Lywodraeth Cymru i fod yn fregus iawn neu ddylai hunanynysu gan eu bod yn fregus. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y gronfa ddata yn cael ei rhannu â sefydliadau gwirfoddol ledled y Fwrdeistref er mwyn ein cynorthwyo i sicrhau eich bod yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnoch yn ystod yr argyfwng hwn.

Darllenwch Ganllawiau Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth ynghylch hunanynysu a diogelu pobl sydd wedi eu diffinio, ar sail feddygol i fod yn debygol iawn o ddiodef o Goronafeirws. Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau yma:

<https://gov.wales/guidance-on-shielding-and-protecting-people-defined-on-medical-grounds-as-extremely-vulnerable-from-coronavirus-covid-19-html#section-38705>.

Mae cymorth cymunedol yn hanfodol er mwyn sicrhau fod gennym wirfoddolwyr i'n cynorthwyo i wneud yn siŵr fod gennych bob dim sydd eu angen arnoch. Ni fydd y Cyngor yn rhannu manylion am eich cyflwr meddygol â sefydliadau gwirfoddol. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r data hyn yn fewnol ar gyfer ein cofnodion ni'n hunain.

Rydym yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn sicrhau fod y rhai sydd mewn angen yn derbyn cymaint o gymorth â phosib. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i ni rannu'ch data personol â'r sefydliadau hyn fel y gallant gysylltu â chi er mwyn gwneud trefniadau addas.

Diogelu Pobl Fregus:

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn gweithio i ddarparu gofal o'r answadd orau gan ganolbwyntio ar hybu llesiant. Fel y GIG, ma'r system gofal cymdeithasol yn wynebu her nas gwelwyd erioed o'r blaen yn sgil COVID-19 ac rydym yn ymroddedig i wneud pob peth ag y gallwn i gynorthwyo'r sector bwysig hon.

Rydym yn gwybod y bydd COVID-19 yn effeithio ar rai yn fwy nac eraill. Mae oed yn ffactor bwysig ac mae pobl hŷn mewn mwy o risg o COVID-19. Gall grwpiau eraill o bobl (e.e. rhai pobl sydd ag anableddau dysgu) ddiodef o gyflyrau (fel afiechydon anadlol) sydd yn gysylltiedig â risg uwch. Rydym am sicrhau fod gofal cymdeithasol ar gael i bawb sydd yn defnyddio'n gwasanaethau ond mae'n rhaid i ni fod yn fwy gwylidwrs o unigolion allai ddiodef yn fwy difrifol.

Rydym yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr iechyd cyhoeddus er mwyn cynorthwyo darparwyr gofal i leihau lledaeniad y feirws. Yn ogystal â hyn, rydym yn defnyddio data o gronfa ddata y Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholiadol i greu rhestrau ychwanegol o unigolion heb

gyflwr meddygol ond a ystyrir i fod mewn risg. Bydd y rhestr hon yn dynodi'r sawl sydd yn 70 neu'n hŷn, yn bennaf. Gyda chymorth ein gwirfoddolwyr cymunedol, byddwn yn defnyddio'r data hwn i gynorthwyo'r sawl sydd wedi eu dynodi drwy'r pandemig.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi rhai camau y bydd angen i ni eu cymryd er mwyn cynorthwyo darparwyr gofal trwy'r pandemig. Mae hyn oll wedi cael ei gefnogi gan gyllid ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 er mwyn cynorthwyo llywodraeth leol i gwrdd â chostau cynyddol y mae darparwyr yn eu hwynebu yn ogystal â gwasgafeydd ychwanegol ar ofal cymdeithasol.

Y Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbytai:

Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y GIG i gynorthwyo pobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ystod y pandemig. Trwy weithio mewn partneriaeth â gofal cymdeithasol i oedolion, bydd y Cyngor yn cynorthwyo i ddynodi argaeledd yn ein cartrefi gofal er mwyn sicrhau fod trosglwyddiadau yn mynd yn eu blaen, heb oedi.

Cynorthwyo Staff y Rheng Flaen – Cyfarpar Diogelu Personol (CDP):

Yn hanesyddol, bu angen Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) fel menig a ffedogau mewn rhai lleoliadau yn unig mewn gofal cymdeithasol i oedolion ac ar gyfer ambell weithgaredd gofal a ddarperir yn nhai unigolion ac mewn cartrefi gofal. I eraill, yn gyffredinol, nid oedd eu hangen. Mae darparwyr gofal sydd eu hangen wedi gwneud eu trefniadau eu hunain i brynu CDP ond yn gyffredinol, nid yw'n gweithwyr gofal wedi bod ag angen gorchuddion wyneb. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19, mae'r canllawiau CDP diweddaraf yn argymhell y dylai gorchuddion wyneb gael eu defnyddio mewn rhai amgylchiadau yn y sector gofal cymdeithasol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor wedi creu tîm a fydd yn cynorthwyo darpariaeth a dosbarthiad CDP i'n staff sydd yn gweithio yn y sector gofal. Byddwn yn creu cronfa ddata a fydd yn dynodi'r staff a fydd angen CDP ac yn sicrhau eu bod yn eu derbyn, heb oedi. Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd y staff hynny yn derbyn hyfforddiant addas i'w defnyddio er mwyn rheoli lledaeniad yr haint.

Cymorth Busnes:

Mae Adran Refeniw'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru er mwyn gweinyddu grantiau busnes i fasnachwyr unigol, yr hunangyflogedig ac unigolion eraill sydd yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol i wneud cais ar ei gyfer. Rydym yn cydlynu gweithrediad y cyllid gan Lywodraeth Cymru ac yn eich cynorthwyo i dderbyn y cymorth ariannol sydd yn ddyledus i chi.

Mae llawer o ffyrdd eraill y mae'r Cyngor yn eich cynorthwyo yn ystod yr argyfwng hwn sydd yn cynnwys cymorth penodol gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gweithredu swyddogaethau ychwanegol er mwyn cynorthwyo i ddiogelu plant ac oedolion sydd yn agored i niwed yn ystod y cyfnod hwn. Mae gennym nifer o Hysbysiadau Preifatrwydd yn eu lle sydd yn ymwneud â Diogelu, Diogelu Plant a Cham-drin Domestig a dylid eu darllen ar y cyd â'r hysbysiad hwn.

PA FATHAU O DDATA PERSONOL RYDYM YN EU DEFNYDDIO:

Gallwn gasglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch er mwyn rhwystro lledaeniad a chynorthwyo'r Llywodraeth i reoli lledaeniad a rheoli COVID-19. Gall y mathau canlynol o ddata personol gael eu defnyddio gan y Cyngor, yn ddibynnol ar natur ein hymateb:

- Disgrifiadau personol fel eich teitl, enw gan gynnwys enw canol, cyfenw ac enwau blaenorol, enwau eraill fell llysenwau, cyfeiriad, cyfeiriadau blaenorol, rhifau ffôn cyswllt, cyfeiriad e-bost, oed, lleoliad geni, dyddiad geni, rhywedd, pwysau, taldra, lliw llygad, lliw gwallt, delweddau, recordiadau CCTV.
- Rhifau adnabod personol fel rhifau adnabod y GIG, Cyfeiriad IP. Cyfeiriad MAC, rhifau ffôn, Rhifau Yswiriant Cenedlaethol (YC,) rhifau budd cymdeithasol (RhBC,) rhifau'r gyflogres, rhif unigryw'r disgybl, rhifau PIN, rhifau cardiau debyd a chredyd, rhif cofrestru car, rhif neu gyfeirnod busnes, rhifau cyfeirnod budd-daliadau.
- Gwybodaeth ariannol yn cynnwys incwm, cofnodion benthyciadau, trosglwyddiadau, pryniannau, arferion gwario, cynilion a buddsoddiadau. Gallwn gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyflog fel faint rydych yn ei dderbyn, beth yw'ch cyflog net a gros a pha mor aml yr ydych yn cael eich talu, os ydych yn derbyn pensiwn iechyd galwedigaethol a fydd yn cynnwys y swm yr ydych yn ei dderbyn. Byddwn hefyd yn cadw gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfraniadau pensiwn. Gallwn gasglu data sy'n ymwneud â'ch budd-daliadau a fydd yn cynnwys Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibynnol Personol neu unrhyw grantiau ar gyfer cerbydau, Budd-dal Tai neu Ostyngiad yn y Dreth Gyngor. Gallai hyn gynnwys dyddiadau'ch ceisiadau diwethaf, unrhyw geisiadau blaenorol ac enw'r Awdurdod Lleol sy'n gwneud y taliadau hynny i chi. Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â hanes eich incwm a'ch enillion yn y dyfodol ac os ydych yn talu unrhyw gostau gofal plant.
- Manylion addysg; os ydych mewn addysg ar hyn o bryd, pa fath o addysg (prif ffrwd, ysgol, coleg, prifysgol,) hanes addysg, canlyniadau arholiadau, cofrestrau presenoldeb, Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY.)
- Gwybodaeth am gyflogaeth sy'n cynnwys ffeiliau cyflogai, hanes cyflogaeth, gwerthusiadau, cyfweliadau geirda, camau disgyblu, manylion eich cyflogwr, pryd wnaethoch ddechrau'ch cyflogaeth unrhyw gyflogwyr eraill sydd gennych neu oedd gennych. Gall hyn hefyd gynnwys eich statws cyflogaeth ac os ydych yn Gyflogedig, Hunangyflogedig, yn derbyn Taliadau Salwch Statudol, Taliadau Mamolaeth Statudol, yn derbyn Taliad Mabwysiadu, Taliad Galwedigaeth Arbennig, Taliad Tadolaeth Statudol neu unrhyw fath arall o daliad yr ydych wedi eu derbyn yn ystod eich cyflogaeth.
- Gwybodaeth ffordd o fyw sy'n ymwneud yn benodol â'ch cymeriad, delwedd gyffredinol, ymddangosiad cyffredinol, statws ariannol, statws cymdeithasol, statws priodasol, nodweddion personol, gwybodaeth ddiwylliannol ac unrhyw ofynion dietegol arbennig. Gall hyn gynnwys os ydych chi neu unrhyw aelod arall o'ch teulu yn y lluoedd arfog, os ydych yn ofalwr maeth cofrestredig, faint o blant sydd gennych, os nad yw unrhyw un o'ch plant yn ddibynnol arnoch ac yn astudio i ffwrdd neu yn y lluoedd arfog.

- Data geo-ofodol sy'n cynnwys signalau GPS, data lleoliad, hydred a lledred, cyfeiriad MAC sy'n gysylltiedig â'r signal Wi-Fi ar eich ffôn symudol, cyfeiriad IP sy'n gysylltiedig â'ch signal Wi-Fi ar eich cyfrifiadur neu'ch gliniadur.

Yn sgil difrifoldeb Coronafeirws, gall y Cyngor hefyd ddefnyddio data personol sy'n fwy sensitif allai gyfeirio at eich:

- Data iechyd a'ch iechyd corfforol a meddwl, anabledau, hanes meddygol y teulu neu unigol, cofnodion deintyddol ac iechyd, teip gwaed, presgripsiynau, asesiadau anghenion, os ydych wedi bod yn yr ysbyty a hyd eich arhosiad. Byddwn hefyd yn casglu data sy'n cyfeirio at y ffaith fod gennych neu'ch bod yn ofalwr cofrestredig a'r math o ofal yr ydych yn ei dderbyn.
- Gwybodaeth am eich bywyd sy'n ymwneud â chrefydd, ymlyniadau gwleidyddol a chredoau, aelodaeth undeb llafur, safbwyntiau, sylwadau a bwriadau.

Gwybodaeth droseddol sy'n cyfeirio at euogfarnau, cyhuddiadau a gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS.) Gallwn hefyd gadw gwybodaeth ynghylch y ffaith eich bod yn y carchar neu ar brawf.

Y SAIL GYFREITHIOL AR GYFER DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL:

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn nodi bod angen i amodau penodol gael eu cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'ch data personol mewn modd sy'n gyfreithiol. Mae'r Cyngor yn dibynnu ar yr amodau canlynol er mwyn defnyddio'ch data personol mewn ymateb i argyfwng:

Disgrifiad:	Darpariaeth GDPR:		Cyf DPA:	Darpariaeth Statudol:
Profi Gweithiwr Allweddol	Erthygl 6 (1)(c) Rhwymedigaeth Gyfreithiol	Erthygl 9 (2)(h) Meddygaeth Ataliol neu Alwedigaethol	Atodlen 1. Rhan. 1 (2) Iechyd	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974
Profi Gweithiwr Hanfodol	Erthygl 6 (1)(c) Rhwymedigaeth Gyfreithiol	Erthygl 9 (2)(h) Meddygaeth Ataliol neu Alwedigaethol	Atodlen 1. Rhan. 1 (2) Iechyd	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974
Profi Aelod o'r Aelwyd	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(h) Meddygaeth Ataliol neu Alwedigaethol	Atodlen 1. Rhan. 1 (2) Iechyd	Canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru Covid-19
Olrhain Cyswllt	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(h) Meddygaeth Ataliol neu Alwedigaethol	Atodlen 1. Rhan. 1 (2) Iechyd	https://www.england.nhs.uk/coronavirus/wp-content/uploads/sites/52/2020/03/guidance-and-sop-covid-19-virus-testing-in-nhs-laboratories-v1.pdf

Capiau Ffôn Covid-19	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Canllawiau Llywodraeth Cymru - Tracio ac Orlhain Coronafeirws</u>
Dynodi Plant Prydiau Cinio am Ddim	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Deddf Addysg 1996</u>
Darparu Prydiau Cinio am Ddim	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Deddf Addysg 1996</u>
Hybiau Ysgol	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Canllawiau Llywodraeth Cymru - ysgol a Gofal Plant yn ystod Pandemig Coronafeirws</u>
Hybiau Gofal	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Canllawiau Llywodraeth Cymru - ysgol a Gofal Plant yn ystod Pandemig Coronafeirws</u>
Cymorth Trydydd Sector	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 1 (2) Iechyd	<u>Canllawiau Llywodraeth Cymru - Llesiant</u>
Ymgysylltia d Cyhoeddus	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2) (g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Canllawiau Llywodraeth Cymru - Gwirfoddoli</u>
Paru Data	Erthygl 6 (1)(c) Rhwymedigaeth Gyfreithiol	Erthygl 9 (2)(b) Diogelu Cyflogaeth, Diogelu Nawdd Cymdeithasol a Diogelu Cymdeithasol	Atodlen 1. Rhan 2 (18) Diogelu	<u>Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</u> <u>Gweithdrefnau a Pholisiau Bwrdd Diogelu Cwm Taf</u> <u>Canllawiau Llywodraeth Cymru</u>
Ymgyrch Llesiant	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Buddiant Cyhoeddus Sylweddol	Atodlen 1. Rhan 2 (6) Statudol	<u>Ymgyrch Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru</u>
Diogelu Plant	Erthygl 6 (1)(c) Rhwymedigaeth Gyfreithiol	Erthygl 9 (2)(b) Diogelu Cyflogaeth, Diogelu Nawdd Cymdeithasol a Diogelu Cymdeithasol	Atodlen 1. Rhan 2 (18) Diogelu	<u>Deddf Plant 1989</u>
Cam-drin Domestig	Erthygl 6 (1)(c) Rhwymedigaeth Gyfreithiol	Erthygl 9 (2)(b) Diogelu Cyflogaeth, Diogelu Nawdd Cymdeithasol a Diogelu Cymdeithasol	Atodlen 1. Rhan 2 (18) Diogelu	<u>Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015</u>

Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbytau	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(g) Meddygaeth Ataliol neu Alwedigaethol	Atodlen 1. Rhan 1 (2) Iechyd	Llywodraeth Cymru - Gwasanaeth Rhyddhau o'r Ysbyty
CDP Cartrefi Gofal	Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus	Erthygl 9 (2)(h) - Meddygaeth Ataliol neu Alwedigaethol	Atodlen 1. Rhan 1 (2) Iechyd	Cronfa Llywodraeth Cymru - Cynborthwyo Staff i dderbyn CDP mewn Cartrefi Gofal
Arwyr Merthyr		Erthygl 6 (1)(f) Buddiant Dilys		
Grantiau Busnes		Erthygl 6 (1)(e) Tasg Gyhoeddus		Cymorth Grantiau Busnes Llywodraeth Cymru

Gallwn hefyd brosesu eich data personol er mwyn diogelu eich buddiannau pwysig, yn unol ag Erthygl 6(1)(d) o'r GDPR.

Wrth i'r pandemig barhau, gall y ffordd y bydd ein gwasanaethau'n cael eu darparu newid. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng Nghofrestr Prosesu Gweithgareddau Covid-19 y Cyngor, fodd bynnag, efallai na fydd diwygiadau'n cael eu gwneud i'r Hysbysiad hwn.

SUT RYDYM YN RHANNU'CH DATA PERSONOL

Gallwn rannu eich data personol ag asiantaethau eraill er mwyn darparu ymateb sydd wedi ei gydlynw er mwyn brwydro Coronafeirws a rhoi'r cymorth sydd ei angen i chi. Yn sgil natur ymateb y Cyngor, byddwn hefyd yn rhannu'ch data'n fewnol ar draws pob un o adrannau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn rhannu ei gronfeydd data â sefydliadau gwirfoddol ym Merthyr Tudful, gan gynnwys:

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
 Cymdeithas Tai Merthyr Tudful
 Hyb Cymunedol Twyn
 Sefydliad Gellideg
 Prosiect Barod
 Prosiect Mens
 Ymddiriedolaeth Elusennol Stephen a George
 Eglwys Hope
 Cymdeithas Alzheimer
 Pwerdy Dowlais – Clwb Bechgyn a Merched Pant a Dowlais

Mae'r Cyngor yn sicrhau fod y cytundebau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau diogelu data personol a bod y darpariaethau GDPR perthnasol yn cael eu bodloni yn ystod yr argyfwng hwn.

Mae'r Cyngor yn cydlynw'r system brofi â Iechyd Cyhoeddus Cymru ac rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu cytundeb datgelu data ffurfiol.

Os ydych yn Weithiwr Allweddol a bod eich plentyn yn mynychu un o'r Ysgolion Hyb, yna byddwn yn rhannu'ch data personol chi a'ch plentyn â'r ysgol honno. Rhestrir yr Ysgolion Hyb, isod:

Ysgol Rhyd Y Grug
Ysgol Gynradd Trelewis
Ysgol Gynradd Gymunedol Troedyrhiw
Ysgol Gynradd Caedraw
Ysgol Gynradd Goetre

Os ydych yn Weithiwr Allweddol a'ch bod yn defnyddio un o'r Darparwyr Hybiau Gofal Plant sydd wedi'u lleoli ym Merthyr Tudful, byddwn yn rhannu data personol amdanoch chi a'ch plentyn â'r darparwr gofal plant. Mae'r Darparwyr Hybiau Gofal Plant wedi'u rhestri isod:

Meithrinfa Ddydd Funtazia
Ysgol Feithrin Seren Bach
Meithrinfa Ddydd Here we Grow
Cylch Meithrin Twyncarmel
Meithrinfa Ddydd Trinity
Kidzden
Llwynog Bychain Beddllwynog – Bedlinog Little Foxes
Meithrinfa Pili Pala

Os ydych wedi gwneud cais am Grantiau Busnes, byddwn yn gwirio'ch cais â Gwasanaeth Sgrinio Twyll Cifas ar gyfer Grantiau Covid-19. Mae hyn er mwyn sicrhau fod pob cais yn ddilys. Os byddwn yn canfod eich bod wedi gwneud cais twyllodrus, yna efallai y bydd rhaid i ni gyflwyno'r wybodaeth honno i'r archwilyr. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch data personol ar gyfer archwilio, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd sy'n ymwneud â'r Fenter Dwyll Cenedlaethol.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad arall y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag y bo fodd a gallwch ddisgwyl yr un lefel o ddiogelwch wrth ymwneud â'ch gwybodaeth bersonol.

PA MOR HIR BYDDWN YN CADW'CH DATA PERSONOL

Byddwn ond yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am ba mor hir ag y mae'n angenrheidiol i ni wneud hynny er mwyn cyflawni bwriadau'r hyn y cafodd ei gasglu yn y lle cyntaf gan gynnwys bwriadau bodloni gofynion cyfreithiol, cyfrifo neu gofnodi. Bydd y wybodaeth bersonol a gesglir yn unol â'r prosesau y manylir arnynt yn yr hysbysiad hwn yn cael ei chadw yn unol â darpariaethau statudol Atodlen Gadw'r Cyngor.

Gellir canfod manylion ynghylch cyfnodau cadw gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk <<http://www.merthyr.gov.uk>>).

SUT RYDYM YN CADW'CH DATA PERSONOL YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch addas fel nad yw'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu ei chyrru mewn modd anawdurdodedig, ei newid neu ei

datgelu. Yn ychwanegol i hyn, rydym yn cyfyngu mynediad i'ch gwybodaeth bersonol i'r cyflogai hynny sydd angen gwybod, yn unig. Byddant ond yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol pan fyddwn yn gofyn iddynt wneud hynny ac maent yn destun cyfrifoldeb cyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn ymdrin ag unrhyw doriadau diogelu data. Byddwn yn eich hysbysu ac unrhyw reolydd arall o unrhyw amheuaeth o doriad lle y mae'n ofynnol, yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan y ddeddf diogelu data sy'n ymwneud â'ch data personol gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch. Mae'r hawliau hyn yn cael eu nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd hawl i wneud cwyn, ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr awdurdod yn y DU sy'n goruchwylio materion sy'n ymwneud â diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa comisiynydd Gwybodaeth (Cymru,) Llawr 2, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

MANYLION PELLACH

Os ydych yn edrych am ragor o wybodaeth ynghylch sut rydym yn prosesu'ch data personol gan gynnwys diogelu data, cadw data a hawliau unigol, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd llawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol o wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, www.ico.org.uk.